# <u>Hysbysiad o Gynnig</u>

## GORCHYMYN
## (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD – YR WYDDGRUG)
## (DIWYGIAD RHIF 2) GORCHYMYN 202X

Rhoddir rhybudd trwy hyn, fod Cyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud Gorchymyn, a fydd yn diwygio:-

Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd - Yr Wyddgrug) (Gorfodaeth Sifil) 2018 a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Yr Wyddgrug) (Diwygiad Rhif 1) 2022

-: fel bod

Bydd Atodlen 2A o fewn Gorchymyn (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Yr Wyddgrug) (Diwygiad Rhif 1) Cyngor Sir y Fflint 2022 yn cael ei ddiwygio, i gyfuno cyfnodau codi tâl dydd / nos er mwyn galluogi un taliad a fydd yn cynnwys y cyfnod rhwng 8am a 10pm o fewn y Maes Parcio Prif Fynedfa, Neuadd y Sir a Maes Parcio Aml-Lawr, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug.

Ym mhob agwedd arall mae darpariaethau presennol y Gorchmynion uchod yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, y cynlluniau sy'n dangos y meysydd parcio yr effeithir arnynt gan y cynnig, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell Yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1AP. Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at <u>transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk</u> neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod erbyn dydd Gwener 15 Awst 2025, neu drwy anfon e-bost at t<u>ransportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk</u> gan ddyfynnu cyfeirnod PS/OFS-AMENDMENT 2/ORDER/Mold/JB.

Dyddiad: Dydd Gwener 25 Gorffennaf 2025

Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, yr Wyddgrug. CH7 6LG

**DYDDIEDIG XX XX 202X**

---

**GORCHYMYN**

**(MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD– YR WYDDGRUG)**

**(DIWYGIAD RHIF 2) CYNGOR**

**SIR Y FFLINT 202X**

---


**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog**

**(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Depo Alltami,**

**Ffordd Yr Wyddgrug**

**Alltami,**

**Yr Wyddgrug,**

**CH7 6LG.**

# GORCHYMYN
# (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD– YR WYDDGRUG)
# (DIWYGIAD RHIF 2) CYNGOR
# SIR Y FFLINT 202X

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i bwerau dan Adrannau 32, 33, 34, 35, 124 (1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd ("Deddf 1984"), Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**<u>Dechreuad a Dyfyniad</u>**

1. Mae'r Gorchymyn hwn yn atodol i Orchymyn Cyngor Sir y Fflint (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd – Yr Wyddgrug) (Gorfodaeth Sifil) 2018 ("y Gorchymyn Gwreiddiol") a Cyngor Sir y Fflint Gorchymyn (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd – Yr Wyddgrug) (Diwygiad Rhif 2) 2022 ("y Gorchymyn") sydd, yn ddarostyngedig fel y crybwyllir yma wedi hyn, yn parhau mewn grym ac effaith lawn.

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar XX XX XX a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn (Mannau Parcio oddi ar y Stryd – Yr Wyddgrug) (Diwygiad Rhif 2) Cyngor Sir y Fflint 202X.

4. Mae'r diffiniadau wedi eu hamlinellu yn y Gorchymyn Gwreiddiol.

5. Caiff Atodlen 2A yn y Gorchymyn ei dileu a'i disodli ag Atodlen 2B.

6. Caiff unrhyw gyfeiriad at Atodlen 2 yn y Gorchymyn Gwreiddiol a Atodlen 2A yn y Gorchymyn ei ddileu a'i ddisodli ag Atodlen 2B.

**RHODDWYD SÊL GYFFREDIN**

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

ar )

y XX diwrnod o XX 202X )

yng ngŵydd: **)**

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

**UWCH GYFREITHIWR**

# ATODLEN 2B

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Dyddiau ac Oriau y Codir Tâl am Leoedd Parcio** | **Oriau y Gellir Codi Tâl Amdanynt** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Sgwâr Griffiths, yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 1 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>08:00 tan 15:00 | Bob dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | £1.50 am hyd at 3.5 awr<br>£2.00 am hyd at 7 awr<br><br>Trwydded preswylwyr £30 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £400 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grosvenor Street, yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 2 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>08:00 tan 15:00 | Bob dydd<br>Bob awr | 3.5 Awr a Dim Dychwelyd o Fewn 1 Awr | £1.50 am hyd at 3.5 awr | Dim |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |
| Heol y Brenin, yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 3 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>08:00 tan 15:00 | Bob dydd<br>Bob awr | 3.5 Awr a Dim Dychwelyd o Fewn 1 Awr | £1.50 am hyd at 3.5 awr | Dim |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

# ATODLEN 2B…parhad

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Dyddiau ac Oriau y Codir Tâl am Leoedd Parcio** | **Oriau y Gellir Codi Tâl Amdanynt** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Love Lane, Yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 4 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm.<br><br>Gall gerbydau sy'n arddangos trwydded arwerthiant fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm ac â threlar wedi'i gysylltu<br>pan gaiff ei barcio mewn bae rhif yn unig | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>08:00 tan 15:00 | Bob dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | £1.50 am hyd at 7 awr<br><br>Trwydded preswylwyr £30 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £48 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meadow Place, yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 5 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 15:00 | Meadow Place, yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 5 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | 3.5 Awr a Dim Dychwelyd o Fewn 1 Awr | £1.50 am hyd at 3.5 awr | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. |
| | Cerbydau trydan Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00 17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

## ATODLEN 2B – parhad

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Dyddiau ac Oriau y Codir Tâl am Leoedd Parcio** | **Oriau y Gellir Codi Tâl Amdanynt** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Stryd Newydd, yr Wyddgrug, fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 6 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | Dydd Llun i ddydd Sadwrn<br>08:00 tan 15:00 | Bob dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | £1.50 am hyd at 3.5 awr<br>£2.00 am hyd at 7 awr<br><br>Trwydded preswylwyr £30 y flwyddyn<br>Trwydded flynyddol £400 y flwyddyn<br>Trwydded staff £48 y flwyddyn. | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul<br>08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Neuadd y Dref, yr Wyddgrug fel y dangosir ag ymyl goch ar Gynllun 7 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn. | Deiliaid trwydded yn unig | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | | Dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00 tan 17:00 | Deiliaid trwydded yn unig | | Trwydded flynyddol £400 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

# ATODLEN 2B – parhad

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Dyddiau ac Oriau y Codir Tâl am Leoedd Parcio** | **Oriau y Gellir Codi Tâl Amdanynt** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Mynedfa’r Prif Faes Parcio, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 8 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi’i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | ddydd Llun i ddydd Sul<br><br>yn cynnwys gwyliau banc 08:00 tan 22:00 | Bob dydd Bob awr | Trwy’r dydd | £1.00 am hyd at 2.5 awr<br>£2.00 am hyd at 14 awr<br><br>Trwydded A - £48 y flwyddyn, Trwydded B – £48 y flwyddyn, Trwydded C - £48 y flwyddyn | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00 17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Faes Parcio, Neuadd y Sir, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 9 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn | Deiliaid trwydded yn unig | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | ddydd Llun i ddydd Sul<br><br>yn cynnwys gwyliau banc 8:00 – 22:00 | Bob dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | Trwydded C - £48 y flwyddyn<br>Trwydded E - £48 y flwyddyn, Trwydded F – trwydded barcio consesiynol | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

# ATODLEN 2B – parhad

| Colofn 1 | Colofn 2 | Colofn 3 | Colofn 4 | Colofn 5 | Colofn 6 | Colofn 7 | Colofn 8 | Colofn 9 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw'r Lle Parcio** | **Dosbarthiad y Lle Parcio** | **Dosbarth Cerbyd** | **Safle lle y gall Cerbyd Aros** | **Dyddiau ac Oriau y Codir Tâl am Leoedd Parcio** | **Oriau y Gellir Codi Tâl Amdanynt** | **Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | **Graddfa Ffioedd** | **Math o Drwydded** |
| Maes Parcio Aml Lawr, Neuadd y Sir, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 10 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn | Talu ac Arddangos a Thrwyddedau | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | ddydd Llun i ddydd Sul yn cynnwys gwyliau banc 08:00 tan 22:00 | Bob dydd Bob awr | Trwy'r dydd | £1.00 am hyd at 2.5 awr<br>£2.00 am hyd at 14 awr<br><br>Trwydded C - £48 y flwyddyn<br>Trwydded D - £48 y flwyddyn<br>Trwydded E - £48 y flwyddyn<br>Trwydded F – trwydded barcio consesiynol | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Neuadd Llwynegrin, Neuadd y Sir, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 11 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn | Talu ac Arddangos | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | ddydd Llun i ddydd Sul<br><br>yn cynnwys gwyliau banc | Bob dydd<br>Bob awr | | | Trwydded Barcio Ddilys |
| | | | | Dydd<br>08:00 tan 17:00 | | Dydd<br>2.5 Awr a Dim Dychwelyd o Fewn 1 Awr | Dydd<br>£1.00 am hyd at 2.5 awr | |
| | | | | Noswaith<br>17:00 tan 22:00 | | Noswaith<br>5 Awr a Dim Dychwelyd o Fewn 1 Awr | Noswaith<br>£2.00 am hyd at 5 awr | |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00 17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

# ATODLEN 2A – parhad

| Colofn 1<br>**Enw'r Lle Parcio** | Colofn 2<br>**Dosbarthiad y Lle Parcio** | Colofn 3<br>**Dosbarth Cerbyd** | Colofn 4<br>**Safle lle y gall Cerbyd Aros** | Colofn 5<br>**Dyddiau ac Oriau y Codir Tâl am Leoedd Parcio** | Colofn 6<br>**Oriau y Gellir Codi Tâl Amdanynt** | Colofn 7<br>**Y cyfnod hiraf y gall cerbydau aros** | Colofn 8<br>**Graddfa Ffioedd** | Colofn 9<br>**Math o Drwydded** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffordd Gwasanaeth 3, Neuadd y Sir, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 12 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn | Deiliaid trwydded yn unig | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | ddydd Llun i ddydd Sul<br><br>yn cynnwys gwyliau banc 8:00 – 22:00 | Bob dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | Trwydded E - £48 y flwyddyn,<br>Trwydded F – trwydded barcio consesiynol | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maes Parcio Theatr Clwyd, fel y dangosir gydag ymyl goch ar Gynllun 13 sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn | Deiliaid trwydded yn unig | Pob Cerbyd (heb drelar wedi'i gysylltu) heb fod yn fwy na 3.5 tunnell pwysau gros uchafswm. | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio. | ddydd Llun i ddydd Sul<br><br>yn cynnwys gwyliau banc 8:00 – 22:00 | Bob dydd<br>Bob awr | Trwy'r dydd | Trwydded E - £48 y flwyddyn<br>Trwydded F – trwydded barcio consesiynol | Trwydded Barcio Ddilys |
| | Cerbydau trydan<br>Llain barcio ailwefru | Cerbydau trydan<br>Beiciau modur trydan | Yn gyfan gwbl o fewn llain barcio cerbyd trydan | Dim | Bob dydd<br>Bob awr | 3 awr dim dychwelyd o fewn 3 awr o ddydd Llun i ddydd Sul 08:00 i 17:00<br>17.00 tan 08.00 dim terfyn | Parcio am ddim | |

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT
# (LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD – YR WYDDGRUG)
# (GORFODAETH SIFIL)
# (DIWYGIAD RHIF 2) 202X

## DATGANIAD O'R RHESYMAU DROS GYNNIG GWNEUD Y GORCHYMYN

Mae Cyngor Sir Y Fflint, yn unol â darpariaethau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a deddfiadau galluogi eraill, yn gwneud darpariaeth ar gyfer llefydd parcio oddi ar y stryd.


Cynigir diwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio Oddi ar y Stryd - Yr Wyddgrug) (Diddymu) 2018 a Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Pario Oddi ar y Stryd - Yr Wyddgrug) (Gorfodaeth Sifil) (Diwygiad 1) 2022, i gyfuno cyfnodau codi tâl dydd / nos er mwyn galluogi un taliad a fydd yn cynnwys rhwng 8am a 10pm o fewn Maes Parcio'r Brif Fynedfa a'r Maes Parcio Aml-lawr, Yr Wyddgrug. Mae'r pwynt newid presennol am 5pm, yn achosi problemau ar hyn o bryd ar gyfer ymwelwyr sy'n defnyddio amwynderau'r ardal a disgwylir i'r newidiadau arfaethedig ddatrys y materion hyn.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft arfaethedig.

Dyddiad: Dydd Gwener 25 Gorffennaf 2025



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Depo Alltami, Ffordd yr Wyddgrug, Alltami, yr Wyddgrug. CH7 6LG




CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Steve Jones

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

**STREETSCENE**

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

DRAWN BY: NH

CHECKED BY: CT

SCALE: 1: 1000 @ A4

NAT. GRID REF: SJ2465


PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Main Entrance Car Park, County Hall, Mold

# Car Park Plan 8

DRAWING NUMBER: ST/PS/0001 | 109 | P1




Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Steve Jones

Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

**STREETSCENE**

BASED UPON VARIOUS ORDNANCE SURVEY MAPS WITH THE PERMISSION OF THE CONTROLLER OF HM STATIONARY OFFICE. CROWN COPYRIGHT RESERVED LICENSE NUMBER LA 100023386L FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL, COUNTY HALL, MOLD.

DRAWN BY: NH

CHECKED BY: CT

SCALE: 1: 500 @ A4

NAT. GRID REF: SJ2465

| PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION |
| --- | --- | --- |

| AMENDMENTS: | DATE |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Multi Storey Car Park, County Hall, Mold
## Car Park Plan 10

DRAWING NUMBER: ST/PS/0001 | 109 | P1